

Y Casglwr

Rhif 81

Pris i'r aelodau: £7.50 y flwyddyn • Pris i'r cyhoedd: £3.50 y rhifyn

Haf 2004

William Owen, Borth y Gest
wedi cael ei facha ar

Swfenîr

YMAE digon wedi ei draethu'n barod, a dichon y traethir llawer mwy eto, heb i mi gcisio rhoi 'mhig i mewn i fwrw fy hatling i unrhyw drafodaeth ar y Diwygiad y dethlir ei ganmlwyddiant eleni. Goddefefer, er hynny, un nodyn a all fod o beth diddordeb i rywun, rywle – yn arbennig felly i ambell un yng Nogledd Ynys Môn.

Y mae yn agos i hanner canrif siŵr o fod, bellach, er pan ddois i'n berchen ar yr hyn y gellir o bosib' ei ystyried yn gofrod neu swfenîr bychan o'r cyfnod hwnnw. Nid eitem o blith y memorabilia arferol hwyrach. Nid cardiau post, dyweder, canys fe gyhoeddwyd nifer o'r rheini i nodi'r digwyddiad, na chwaith un o'r jygiau tegan a gynhyrchwyd ar y pryd gyda llun y diwygiwr ifanc arni. Roedd marchnad sicr am drugareddau o'r fath wrth reswm, a'r masnachwyr craff fel erioed, gwehelyth gofaint arian Effesus yr Apostol Paul 'slawer dydd, wedi ei gweld hi ac wedi manteisio ar y cyfle i wneud elw. Nid bod unrhyw record neu dâp caset neu CD ohono'n traethu ar werth bryd hynny, cofier! Nid fel y dwthwn hwn, oblegid os gwir y sôn – ac os llwydda'r arbenigwyr yn Aberystwyth i roi trefn ar bethau yn dilyn darganfyddiad diweddar – bydd atgynhyrchiad o'i lais, hefyd, ar gael cyn bo hir. A bydd Evan Roberts yn llefaru eto!

Llofnod Evan Roberts

Drwy law y diweddar Miss Jane Williams, Rhosbeirio, Ynys Môn y daeth yr eitem dan sylw yn eiddo i mi. Roedd hi yn ei dydd yn un o golofnau Hephysiba (M.C.) yn yr ardal hynod wledig honno, a bu'n tradio'r organ yn y capel bach am drigain mlynedd hir a rhagor.

Fe wyddai hi 'mod i'n llafr o hogyn wedi dechrau casglu llofnodion a llythyrau rhai o'r gwyr enwog gynt. (Croesewais, gyda llaw, y sylw Golygyddol yn rhifyn y Gwanwyn o'r *Casglwr* y byddai'n eitha' peth, o bryd i'w gilydd, cynnal arwerthiant o hen lythyrau o'r fath).

'Sgynnoch chi lofnod Ifan Robaitsh y Diwygiwr,

tybad', holodd un diwrnod, 'ac os nad oes, hoffech chi gael un?'

Doedd dim angen gofyn ddwywaith!

Bu'n ffowla yng nghwprdd a drôr y dresel am sbel cyn

cyhoeddi – 'Wel dyma fo, er bod golwg mawr arno, rwy'n ofni. Croeso i chi ei gael, mae'n dda gin i fod rhywun hyd yn oed â'r mymryn lleia' o ddiddordeb bellach mewn hen betha' fel hyn'.

Cyflwynodd Feibl o faintioli lled fychan i mi a hwnnw wedi llwydo, hynod racciog ei hoedl, gyda hanner ei dudalennau'n rhyddion!

'Welsoch chi rwbath â mwy o olion traul arno yn eich dydd erioed deudwch', gwaredodd, eithr gan ychwanegu 'er mai fel yna y dylai pob Beibl ymddangos, decini? Agorwch o i chi gael gweld.'

A dyma ufuddhau. Ar un ochr i'r ddalen rwymo roedd cyfieithiad – i un o dafodieithoedd yr India 'nôl yr hyn y gallwn i ei gasglu – o ddau bennill emyn cyfarwydd John Elias:

Ai am fy meiau i ...

Gyda llofnod un John Roberts, Cherrapoongee ar y gwaelod. Ac yna, ar yr ochr arall mewn llaw gymen, wele'r canlynol yn ysgrifenedig:

Dy eiddo di ydyw gair dy fywyd ysbrydol:

Onid rhaid i arall fwythau ei ffrwythau:


Rhaid i'th fywyd fod yn wledd i arall.

Roedd wedi ei arwyddo ar y 24:V:05 gan Evan Roberts.

Oedfaon Cynhyrfu

Daethai Evan Roberts i Ogledd Môn o Lerpwl, un o gadarnleoedd ymneilltuaeth Gymreig y cyfnod, a'r lle y cawsai nifer o oedfaon gwllthog a chynhyrfus, os peth yn ddidrefn ar brydiau, gyda phobl yn siarad, yn gweiddi ac yn canu ar draws ei gilydd, a phethau digon amrwd yn cael eu traethu weithiau. A phan gyrhaeddodd y Fam Ynys, roedd yn bur ddiffygiol, wedi llwyr ymlâdd. Bu'n

(Parhad ar y dudalen ôl)



Evan Roberts – Y Diwygiwr.